

Mama

Astudiaeth Meddyginiaethau Gwrthgyrff Monoclonaidd mewn Arthritis
Llidiol: atal neu barhau yn ystod beichiogrwydd (MAMA)

Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer menywod
bechiog ag arthritis llidiol sy'n cael eu
trin gyda meddyginiaeth fiolegol.



Darllenwch y daflen hon i gael
gwybod rhagor, a sganwch
y cod QR i wyllo'r fideo.



Os hoffech gael rhagor
o wybodaeth, siaradwch
ag aelod o'r tîm clinigol.



Astudiaeth MAMA: Gwybodaeth Allweddol

Mae'r daflen wybodaeth hon yn darparu gwybodaeth am Astudiaeth MAMA

- Rydych chi wedi derbyn y daflen wybodaeth hon oherwydd eich bod chi'n feichiog ac mae gennych chi arthrits llidiol sy'n cael ei drin ag un o'r meddyginiaethau biolegol rydyn ni'n eu hastudio.
- Mae astudiaeth MAMA wedi'i chynllunio i ddarganfod a yw'n well i fenywod sy'n feichiog ag arthrits llidiol barhau i gymryd eu meddyginiaeth fiolegol drwy gydol beichiogrwydd neu roi'r gorau iddi erbyn 28 wythnos o feichiogrwydd.
- Ar draws y Deyrnas Unedig (DU), ein nod yw cynnwys 328 o fenywod yn astudiaeth MAMA.
- O'r 328 hynny, bydd menywod yn cael eu dyrannu ar hap gan system gyfrifiadurol i naill ai barhau i gymryd eu meddyginiaeth fiolegol drwy gydol beichiogrwydd, neu i roi'r gorau iddi erbyn 28 wythnos o feichiogrwydd.
- Ar wahân i roi'r gorau i'ch meddyginiaeth fiolegol bresennol neu barhau â hi, ni fydd unrhyw newidiadau eraill yn cael eu gwneud i'ch triniaeth arthrits o ganlyniad i fod yn yr astudiaeth.
- Yn ystod eich beichiogrwydd byddwn yn gofyn i chi gwblhau holiadur syml pan ymunwch â'r astudiaeth ac yna bob mis i roi gwybod am eich symptomau arthrits trwy ap ar eich ffôn (neu ar bapur os yw'n well gennych).
- 3, 6, a 12 mis ar ôl diwedd eich beichiogrwydd, byddwn yn gofyn i chi lenwi holiadur am iechyd chi a'ch babi.
- Ar ôl 24 mis byddwn yn gofyn i rai cyfranogwyr gwblhau holiadur a fydd yn cynnwys rhai cwestiynau safonol am ddatblygiad eich plentyn a ddefnyddir yn aml i ddilyn plant yn rheolaidd yn yr oedran hwn.
- Bydd data amdanoch chi a'ch babi hefyd yn cael eu casglu o'ch cofnodion iechyd.

Mama

***Hoffem eich gwahodd chi i gymryd rhan
yn ein hastudiaeth ymchwil.***

***Mae'r ymchwil hwn ar gyfer menywod beichiog ag arthritis
llidiol sy'n cael eu trin gyda meddyginiaeth fiolegol.***

Beth yw Astudiaeth MAMA?

Mae astudiaeth MAMA wedi'i chynllunio i ddarganfod a yw'n well i fenywod sy'n feichiog ag arthritis llidiol roi'r gorau i gymryd meddyginiaethau biolegol neu barhau i'w cymryd. Mae tystiolaeth dda bod y meddyginiaethau hyn yn ddiogel i'r babi sy'n datblygu. Mae canllawiau cenedlaethol diweddar (Cymdeithas Rheumatoleg Prydain, 2023) wedi nodi y gellir parhau â meddyginiaethau biolegol drwy gydol bechiogrwydd os oes angen i reoli clefyd gweithredol/difrifol. Felly, bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n cymryd meddyginiaethau biolegol ar gyfer arthritis yn parhau i'w cymryd yn hanner cyntaf bechiogrwydd.

Rydyn ni'n gwybod y gallai'r meddyginiaethau hyn effeithio ar y ffordd y mae system imiwnedd babi yn ymateb i frechiadau byw. Bydd rhai menywod yn dewis rhoi'r gorau i feddyginiaethau biolegol yn ystod 3 mis olaf eu bechiogrwydd, er mwyn i'w babi allu cael amserlen frechu arferol lawn. Fodd bynnag, bydd rhai menywod yn parhau i gymryd meddyginiaethau biolegol drwy gydol eu bechiogrwydd cyfan, a bydd un neu ddau o frechiadau eu babi (a elwir yn frechiadau "byw") yn cael eu gohirio am 6 mis.

Mae rheoli arthritis yn dda yn ystod beichiogrwydd yn bwysig oherwydd gall arthritis difrifol arwain at ganlyniadau gwaeth yn ystod beichiogrwydd a gall meddyginiaethau biolegol helpu i reoli lefelau poen a llid. Gall rhoi'r gorau i feddyginiaethau biolegol olygu bod arthritis mewn perygl o waethygu, a fyddai'n gofyn am driniaeth gyda steroidau neu feddyginiaethau eraill a all effeithio ar feichiogrwydd.

Nid penderfyniad syml yw hi o ran rhoi'r gorau i gymryd meddyginiaethau biolegol neu barhau â nhw yn ail hanner beichiogrwydd. Nid ydym yn gwybod effaith rhoi'r gorau i feddyginiaethau biolegol neu barhau â nhw ar ba mor dda y caiff arthritis person ei reoli yn ystod beichiogrwydd neu yn y cyfnod ôl-enedigol (ar ôl i'r babi gael ei eni). Mae astudiaeth MAMA yn ceisio ateb y cwestiwn hwn.

Pam ydw i wedi derbyn gwahoddiad?

Rydych chi'n cael eich gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon oherwydd eich bod chi'n feichiog ac mae gennych chi arthritis llidiol sy'n cael ei drin ag un o'r meddyginiaethau biolegol rydyn ni'n eu hastudio. Ar draws y Deyrnas Unedig (DU) ein nod yw cynnwys 328 o fenywod yn astudiaeth MAMA.

Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Na. Chi sydd i benderfynu a ydych chi'n cymryd rhan ai peidio. Os penderfynwch nad ydych am gymryd rhan, nid oes rhaid i chi roi rheswm ac ni fydd eich gofal yn cael ei effeithio mewn unrhyw ffordd. Os byddwch chi'n cymryd rhan ac yna'n newid eich meddwl am hyn yn ddiweddarach, rydych chi'n rhydd i dynnu'n ôl o unrhyw agwedd ar yr astudiaeth ar unrhyw adeg. Ni fydd eich gofal yn cael ei effeithio a bydd yn dilyn y dull safonol yn yr ysbyty hwn. Dim ond data sy'n ymwneud â digwyddiadau sy'n digwydd hyd at yr amser tynnu'n ôl y byddwn yn eu casglu a'u defnyddio.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn penderfynu cymryd rhan yn Astudiaeth MAMA?

Os byddwch yn cytuno cymryd rhan, gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd. Drwy lofnodi'r ffurflen hon rydych chi'n cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon. Byddwch yn cael eich dyrannu ar hap gan system gyfrifiadurol i naill ai barhau i gymryd eich meddyginiaeth fiolegol drwy gydol eich beichiogrwydd, neu i roi'r gorau iddi erbyn 28 wythnos o feichiogrwydd. Bydd hyn yn cael ei benderfynu ar hap felly bydd gennych gyfle cyfartal o fod yn rhan o'r naill grŵp neu'r llall.

NEU

Y grŵp parhau

Bydd menywod yn y grŵp hwn yn parhau i gymryd eu meddyginiaeth fiolegol drwy gydol beichiogrwydd.

Y grŵp atal

Bydd menywod yn y grŵp hwn yn rhoi'r gorau i'w meddyginiaethau biolegol cyn trydydd tymor (28 wythnos) y beichiogrwydd, ac yn ailgychwyn dim cynharach na phythefnos ar ôl beichiogrwydd.

Ar wahân i roi'r gorau i'ch meddyginiaeth fiolegol bresennol neu barhau â hi erbyn 28 wythnos o feichiogrwydd, ni fydd unrhyw newidiadau eraill yn cael eu gwneud i'ch triniaeth arthritis o ganlyniad i fod yn yr astudiaeth.

Yn ystod eich beichiogrwydd byddwn yn gofyn i chi gwblhau holiadur syml pan fyddwch yn ymuno â'r astudiaeth. Yna byddwn yn gofyn i chi gwblhau holiaduron byr bob mis tan ddiwedd eich beichiogrwydd, a 3, 6, a 12 mis ar ôl diwedd eich beichiogrwydd. Bydd yr holiaduron hyn yn gofyn i chi am eich symptomau a'ch triniaeth arthritis a gellir eu cwblhau trwy ap ar eich ffôn (neu ar bapur os yw'n well gennych). Dim ond 1-2 funud y mae'r holiadur yn ei gymryd i'w gwblhau. Gallwch hefyd ddweud wrthym am fanylion rhai digwyddiadau eraill megis fflamychiad arthritis ar unrhyw adeg.

3, 6, a 12 mis ar ôl diwedd eich beichiogrwydd, byddwn hefyd yn gofyn i chi lenwi holiaduron i ddsygu am iechyd ac ansawdd bywyd chi a'ch plentyn. Bydd yr holiaduron hyn yn cymryd 5-10 munud i'w cwblhau. Bydd data amdanoch chi a'ch babi hefyd yn cael eu casglu o'ch cofnodion iechyd.

Ar ôl 24 mis byddwn yn gofyn i rai cyfranogwyr gwblhau holiadur hirach a fydd yn cynnwys rhai cwestiynau safonol am ddatblygiad eich plentyn a ddefnyddir yn aml i ddilyn plant yn rheolaidd yn yr oedran hwn. Bydd a ofynnir i chi gwblhau'r holiadur hwn yn dibynnu ar bryd y byddwch yn ymuno â'r astudiaeth. Bydd y person rydych chi'n siarad ag ef am ganiatâd yn gallu dweud wrthy'ch chi beth i'w ddisgwyl.

A all fy mabi gymryd rhan?

Bydd opsiwn i'ch babi gael ei ystyried ar gyfer rhan arall o'r astudiaeth sy'n edrych ar system imiwnedd eich babi. Byddai'r rhan hon o'r astudiaeth yn cynnwys 3 ymweliad â'ch cartref i gymryd samplau gwaed bach (tua 1-2 llwy de o waed ar gyfer pob sampl) pan fydd eich babi yn 2 fis, 5 mis a 13 mis oed.

Nid oes rhaid i chi benderfynu eto a fyddech chi'n hapus i'ch babi gael y profion gwaed hyn. Ond byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni a ydych chi'n hapus i gael eich cysylltu gan y Ganolfan Gyflynu MAMA ynglŷn â hyn ar ôl i'ch babi gael ei eni. Nid oes rhaid i chi gytuno i'ch babi gael profion gwaed er mwyn cymryd rhan yn astudiaeth MAMA.

Beth ddylwn i ei ystyried?

I fenywod sy'n parhau â'u meddyginiaethau biolegol drwy gydol beichiogrwydd, efallai y bydd un neu ddau o frechiadau eich babi yn cael eu gohirio. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'ch tîm gofal clinigol. Am y rheswm hwn, os ydych chi'n bwriadu symud i wlad sydd â chyfraddau uchel o dwbercwlosis o fewn 6 mis i roi genedigaeth neu os oes gan unrhyw un o'ch perthnasau agos neu bobl rydych chi'n byw gyda nhw dwbercwlosis gweithredol ar hyn o bryd, ni allwch chi gymryd rhan yn MAMA.

A oes unrhyw anfanteision neu risgiau posibl o gymryd rhan?

Mae parhau yn ogystal â rhoi'r gorau i ddefnyddio meddyginiaethau biolegol y tu hwnt i 28 wythnos o feichiogrwydd yn arfer arferol yn y DU. Gall rhoi'r gorau i'ch meddyginiaethau biolegol gynyddu'r risg o weithgarwch clefydau a fflamychiadau yn ystod beichiogrwydd. Os bydd eich arthritis yn gwaethygu, neu os byddwch chi'n profi fflamychiad, efallai y byddwch chi'n penderfynu ailgychwyn eich meddyginiaeth fiolegol ar ôl trafodaeth â'ch tîm clinigol. Yn anaml, mae rhai menywod yn nodi nad yw eu meddyginiaethau biolegol yn gweithio cystal ag o'r blaen, ond i'r rhan fwyaf o fenywod, mae ailgychwyn eu meddyginiaethau biolegol neu feddyginiaeth fiolegol amgen yn effeithiol ar gyfer rheoli eu clefyd. Gall parhau â'ch meddyginiaeth fiolegol yn ystod beichiogrwydd gael effeithiau posibl ar systemau imiwnedd babanod, a gall rhai brechiadau babanod gael eu gohirio. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi fel rhan o'ch gofal clinigol, os oes gennych unrhyw bryderon, trafodwch nhw gyda'ch rheumatolegydd neu'ch tîm clinigol.

Beth yw manteision posibl cymryd rhan?

Er nad oes unrhyw fanteision uniongyrchol i gymryd rhan, gallai eich cyfraniad helpu i ateb cwestiwn pwysig, a allai fod o fudd i fenywod a'u babanod yn y dyfodol.

A fydda i'n cael fy ad-dalu am gymryd rhan?

Nid oes tâl am gymryd rhan yn yr astudiaeth. Ond pan anfonwn yr holiadur atoch pan fydd eich babi yn 2 flwydd oed, byddwn yn anfon taleb stryd fawr gwerth £15 atoch fel diolch am gymryd rhan.

Chi a'ch data

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth hon?

Ar ddiwedd yr astudiaeth (ar ôl i bob cyfranogwr orffen y treial a bod y data wedi'u glanhau a'u cloi), bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi mewn cyfnodolyn meddygol. Byddwn yn ysgrifennu ein hadroddiadau mewn ffordd sy'n golygu na fydd modd i neb weithio allan pwy gymerodd ran yn yr astudiaeth. Byddwn hefyd yn rhannu'r canlyniadau mewn cynadleddau, ar ein gwefan, a chyda grwpiau cymorth arthritis llidiol. Byddwn yn anfon copi o'r canlyniadau atoch ar ddiwedd y treial. Mae'n bosibl y bydd data anhysbys o'r astudiaeth hon yn cael eu rhannu â grwpiau eraill sy'n gwneud gwaith tebyg yn y dyfodol hefyd.

Pa wybodaeth bersonol fyddwch chi'n ei chasglu amdanaf i a fy mabi?

Os penderfynwch gymryd rhan, byddwn yn defnyddio gwybodaeth gennych chi, eich cofnodion iechyd chi a'ch babi, a chofrestrfeydd canolog eraill y GIG (neu gronfeydd data cenedlaethol cyfatebol) er mwyn cynnal yr astudiaeth hon a byddwn yn defnyddio'r lleiafswm posibl o wybodaeth bersonol adnabyddadwy. Byddwn yn casglu rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch babi, gan gynnwys enw, rhif GIG (neu gyfwerth), dyddiad geni, cyfeiriad, a manylion cyswllt (e.e. cyfeiriad e-bost a rhif ffôn).

Bydd y wybodaeth yn cael ei hanfon at Ganolfan Cydlynu MAMA, sy'n cynnwys dau grŵp ymchwil ym Mhrifysgol Rhydychen sy'n gweithio gyda'i gilydd ar astudiaeth MAMA, yr Uned Epidemioleg Amenedigol Genedlaethol (NPEU CTU) a Grŵp Brechlynnau Rhydychen (OVG).

Bydd y tîm yn defnyddio eich enw, cyfeiriad cartref, a manylion cyswllt i gysylltu â chi ynglŷn â'r astudiaeth ymchwil.

Cadw'ch data yn ddiogel

Byddwn yn storio unrhyw ddogfennau ymchwil sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch babi, megis ffurflenni caniatâd, ac unrhyw wybodaeth adnabyddadwy arall yn ddiogel ym Mhrifysgol Rhydychen am 25 mlynedd

ar ôl diwedd yr astudiaeth, a gynlluniwyd i fod yn 2030, fel rhan o'r cofnod ymchwil. Cedwir copi o'r ffurflen ganiatâd o'r astudiaeth hon yn eich cofnodion meddygol cyhyd ag y cedwir y cofnodion hynny.

Gellir rhoi mynediad at ddata i aelodau cyfrifol Prifysgol Rhydychen, Coleg y Brenin Llundain, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), Canolfan Gydlynu MAMA, neu'r Ymddiriedolaeth letyol ar gyfer monitro a/neu archwilio'r astudiaeth i sicrhau bod yr ymchwil yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.

Ble arall y gellir rhannu fy nata?

Gall unigolion o Grŵp Peirianeg Meddalwedd Ymchwil Rhydychen (OxRSE), Prifysgol Rhydychen, weld eich gwybodaeth bersonol adnabyddadwy (eich enw a'ch cyfeiriad e-bost) er mwyn caniatáu ichi ryngweithio â'r astudiaeth trwy ap ar eich ffôn clyfar. Bydd eich meddyg teulu a'ch rheumatolegydd hefyd yn cael gwybod eich bod yn cymryd rhan yn yr astudiaeth hon.

Mae rheoliadau diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth amdanoch chi. Yn achos ymchwil, mae hon yn 'dasg er budd y cyhoedd.' Prifysgol Rhydychen yw noddwr yr astudiaeth hon. Dyma'r rheolwr data, ac mae'n gyfrifol am ofalu am eich gwybodaeth a'i defnyddio'n iawn.

Mae rheoliadau diogelu data yn rhoi rheolaeth i chi dros eich data personol a sut mae'n cael eu defnyddio. Pan fyddwch chi'n cytuno i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio mewn ymchwil, fodd bynnag, efallai y bydd rhai o'r hawliau hynny'n gyfyngedig er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol ar gael yn: ***compliance.web.ox.ac.uk/individual-rights***

Gweler ein dolen we am ragor o wybodaeth am sut rydym yn diogelu eich data:

www.npeu.ox.ac.uk/ctu/privacy-notice

Cymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol:

Hoffem gynnal rhywfaint o ymchwil pellach yn y dyfodol i asesu canlyniadau iechyd, niwroddatblygiadol ac addysgol tymor hwy eich plentyn mewn perthynas â chymryd meddyginiaethau biolegol yn ystod beichiogrwydd. I wneud hyn, mae angen eich caniatâd arnom i ddefnyddio rhif GIG chi a rhif eich plentyn (neu gyfwerth), a manylion adnabod eraill er mwyn cael mynediad at ddata iechyd ac addysg arferol eich plentyn drwy gronfeydd data cenedlaethol.

Byddai unrhyw ymchwil bellach yn destun adolygiad moesegol, a byddem yn sicrhau ei fod yn gydnaws â phwrpas yr astudiaeth hon. Mae hon yn rhan ddewisol o'r astudiaeth hon, nid oes rhaid i chi gydsynio i hyn er mwyn cymryd rhan yn MAMA. Mae gennych hefyd yr hawl i optio allan o'r cronfeydd data hyn. Os nad ydych chi am i'r GIG ddefnyddio eich cofnodion iechyd at ddibenion cefnogi unrhyw ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol, ewch i: www.nhs.uk/your-nhs-data-matters/manage-your-choice i wneud eich dewis.

Byddwn hefyd yn gofyn am ganiatâd i gysylltu â chi eto yn y dyfodol o bosibl, i gael gwybod sut mae eich plentyn yn dod ymlaen wrth iddo dyfu i fyny, os ydych chi'n cytuno y bydd eich manylion personol, megis enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost, yn cael eu storio yn Rhydychen a'u rhannu gyda'r timau ymchwil yng Ngholeg y Brenin Llundain.

Beth os oes problem?

Yn y lle cyntaf, gallwch siarad â'r tîm clinigol sy'n gofalu amdanoch a fydd yn eich helpu gyda'ch pryder. Gallwch hefyd gysylltu â'r tîm ymchwil lleol, naill ai'r nyrsys ymchwil neu'r Prif Ymchwilydd; mae eu manylion cyswilt ar gefn y daflen hon.

Noder nad yw gwybodaeth a adroddir ar ap yr astudiaeth a'r holiaduron yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at eich meddyg teulu, obstetrydd, bydwaig na rheumatolegydd. Os oes angen cyngor meddygol arnoch chi neu'ch babi, cysylltwch â'ch tîm clinigol yn uniongyrchol.

Os hoffech gwyno am unrhyw agwedd ar y ffordd rydych chi neu'ch babi wedi cael eich trin, gallwch ddefnyddio gweithdrefnau cwyno arferol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a bydd y Gwasanaeth Cyngor a Chyswilt Cleifion (PALS) yn eich ysbyty yn eich cynghori ar hyn.

Os hoffech gwyno am unrhyw agwedd ar y ffordd y cawsoch eich cysylltu neu eich trin, neu sut y mae eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn ystod yr astudiaeth hon, dylech gysylltu â'r Athrawes Marian Knight (manylion ar dudalen 12) neu gallwch gysylltu â Thîm Llywodraethu Ymchwil, Moeseg a Sicrwydd Prifysgol Rhydychen (RGEA) ar 01865 616480, neu bennaeth RGEA, e-bostiwch RGEA.Complaints@admin.ox.ac.uk.

Gwybodaeth Bellach

Pwy sy'n trefnu ac ariannu'r astudiaeth?

Mae'r astudiaeth wedi'i hariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR153577) sef cangen ymchwil y GIG. Noddir yr astudiaeth gan Brifysgol Rhydychen a chaiff ei rhedeg gan Uned Treialon Clinigol yr Uned Epidemioleg Amenedigol Genedlaethol ym Mhrifysgol Rhydychen mewn cydweithrediad â Choleg y Brenin Llundain. Yr Athrawes Marian Knight a Dr Kate Duhig yw'r prif Ymchwilwyr.

Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth?

Mae'r holl ymchwil yn y GIG yn cael ei archwilio gan grŵp annibynnol o bobl, sef y Pwyllgor Moeseg Ymchwil, i amddiffyn buddiannau cyfranogwyr. Mae'r astudiaeth hon wedi cael ei hadolygu a rhoddyd barn ffafriol iddi gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Canolog Llundain.

Diolch am ddarllen y wybodaeth hon.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon neu os hoffech gael help gydag unrhyw agwedd ar y treial, cysylltwch â:

Tîm Astudio MAMA

Uned Treialon Clinigol NPEU
Uned Epidemioleg Amenedigol Genedlaethol (NPEU)
Adran Iechyd y Boblogaeth Nuffield
Prifysgol Rhydychen, Campws Old Road, Rhydychen OX3 7LF

Ff: 01865 743859 **E:** mama@npeu.ox.ac.uk
G: www.npeu.ox.ac.uk/mama

Rydym yn defnyddio'r term 'menywod' drwy gydol ein gwefan a'n cyhoeddiadau i gyfeirio at y rhai sy'n bwriadu beichiogi, sy'n feichiog, ac sy'n rhoi genedigaeth. Rydym yn cydnabod nad yw pob person sy'n feichiog ac yn rhoi genedigaeth yn uniaethu fel menywod, ac mae'n bwysig bod gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer iechyd mamolaeth, amenedigol ac ôl-enedigol yn gynhwysol.

